

DOLEN Y TAB – 61

25–26 Mehefin 2021

Oedfa Rithiol Sul 27 Mehefin

Yng ngofal Lyn West a'r teulu.

Oedfaon yr Wythnosau Nesaf

Gorffennaf

- 4 Y Parchg. Aled Edwards.
- 11 Oedfa'r Cyfundeb. Ymuno'n rhithiol gyda'r oedfa o'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr.

Hefyd ddydd Sul 27 Mehefin

12:00 Oedfa Radio Cymru

Dan ofal Naomi Starkey, Cemaes.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg


John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru



**Y Gair a'r Genedl:
canmlwyddiant geni
R. Tudur Jones**

Darlith gan yr Athro D. Densil Morgan

NOS LUN,
28 MEHEFIN
7:00 P.M

E-BOSTIWCH
UNDEB@ANNIBYNWYR.CYMRU
I DDERBYN LINC

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cyfarfodydd Blynyddol Rhithiol 2021
29 Mehefin – 1 Gorffennaf

Pleser yw estyn croeso i Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb dros Zoom. Mae dwy ddolen gysylltu i ymuno â'r cyfarfodydd:

- Y cynadleddau
- Y cyfarfodydd cyhoeddus.

I gofrestru cysylltwch â undeb@annibynwyr.cymru gan nodi eich dewis o ddolenni. Ceir manylion y cyfarfodydd yn *Y Tyst*, 10 Mehefin 2021 tudalen 8 (annibynwyr.org/tyst/).

CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Mae Lol Delbridge wedi cysylltu i egluro bod y Banc Bwyd yn casglu bwyd yn Tesco Tonysguboriau ddydd Iau, Gwener a Sadwrn 15, 16, 17 Gorffennaf. Mae hi'n awyddus i ni wybod ac yn estyn gwahoddiad i unrhyw un o'r Tabernacl ymuno, am fod llawer ohonom wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

Mae ein casgliad ariannol at y Banc Bwyd yn dal yn weithredol, a dydy Lol ddim am roi pwysau ar neb. Fyddwn ni ddim yn trefnu rota, ond os oes unrhyw un eisiau ymuno, gadewch i mi wybod, gan nodi diwrnod ac amser, ac fe gysyllta i â Lol.

ann.pentyrch@btinternet.com

Darpar-Lywydd

Cyhoeddwyd ar ddechrau'r wythnos hon mai Jeff Williams oedd wedi ei ethol gan eglwysy'r enwad i wasanaethu fel Darpar-Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg dros y ddwy flynedd nesaf. Estynnwn pob bendith iddo.

Cristion

Nos Wener ddiwethaf, 18 Mehefin, 'ail-lansiwyd' *Cristion*, y cylchgrawn Cristnogol dau-fisol eciwmenaid a gyhoeddir gan bwyllgor sy'n cynrychioli chwe enwad Cymreig. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf yn ôl yn 1983, ond gan mai tair blynedd yw tymor y golygydd fe fydd tîm golygyddol newydd yn olynu Owain Llŷr Evans wrth y llyw o rifyn Gorffennaf/Awst eleni ymlaen. Y tri yw Dylan Rhys Parry, gweinidog newydd y Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr a'r Tabernacl, Porth-cawl; Carwyn Siddall, gweinidog Gofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch; a Nerys Siddall, Cymdeithas y Beiblau, a Rheolwraig a Swyddog Addysg Canolfan Byd Mary Jones. Am ragor o wybodaeth am eu cynlluniau dros y tair blynedd nesaf, gwyliwch y fideo *YouTube* lle mae'r tri yn cyflwyno'u bwriadau. Mae'r arlwy arfaethedig yn argoeli'n dda a dymunwn yn dda iddynt.

Ceir rhagor o fanylion ar y wefan www.cristion.net.

Cyril G. Williams 1921–2004

Llyfr Amhrisiadwy

Mae'n anodd dychmygu heddiw pa mor argyfyngus oedd hi ar y diwydiant llyfrau Cymraeg ar ddechrau'r 1950au. Ers oes aur gyntaf y wasg Gymraeg yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd pethau wedi crebachu i'r fath raddau erbyn canol yr ugeinfed ganrif fel bod llawer o gyhoeddwy a llyfrgellwyr yn darogan ei thranc o fewn degawd neu ddwy os na ellid sicrhau ymyrraeth cyrrff llywodraethol. Ond yn ystod dyddiau llwm ddechrau'r 1950au cyhoeddwyd un gyfrol nodedig iawn gan Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, sef *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953). Cyfrol yw hon sy'n cynnwys dros 3,300 o ysgrifau bywgraffyddol ar Gymry amlwg. Bu'n rhaid chwilio'n ddyfal iawn am gymorth ariannol i wireddu'r fenter o argraffu gwaith oedd dros 1,100 o dudalennau. Yn y diwedd, cafwyd cefnogaeth gan Gronfa Gyffredinol y Cymmrodorion, Cronfa Degwm siroedd Cymru, sefydliadau addysgol, unigolion a'r Pilgrim Trust. Ond nid dyna ddiwedd hanes *Y Bywgraffiadur* chwaith, oherwydd fe gyhoeddwyd dau atodiad pellach i gynnwys rhai oedd wedi marw rhwng 1940 a 1970.

Beirniadaeth Deg?

Yna yn 2007 fe lanswyd fersiwn electronig o'r holl gofnodion, gan ychwanegu erthyglau am rai fu farw ers 1970. Bellach mae'n cynnwys dros 5,000 o ysgrifau, a phersonau newydd yn cael eu hychwanegu yn rheolaidd. Er bod y *Bywgraffiadur* gwreiddiol wedi derbyn croeso cynnes gan ysgolheigion, addysgwyr a rhai sy'n ymddiddori yn hanes pobl Cymru dros y canrifoedd, un feirniadaeth a leisiwyd oedd bod llawer gormod o weinidogion a phregethwyr anghydfurfiol nad oeddynt yn teilyngu'r fath sylw wedi eu cynnwys yn y gyfrol.

Ers 2014, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros ddatblygu'r wefan i'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd. Ymhlith y datblygiadau hyn roedd sicrhau gwell cydbwysedd o ran y meysydd a gynrychiolir – felly ceir mwy o sylw nag o'r blaen i gynnwys unigolion a gyfrannodd i feysydd megis gwyddoniaeth a chwaraeon, ac i ferched. Er hynny mae'n braf medru adrodd bod un a wnaeth gyfraniad gwerthfawr iawn fel gweinidog anghydfurfiol a diwinydd ymhlith yr unigolion diweddaraf i'w gynnwys yn y *Bywgraffiadur*, sef Cyril G. Williams, a hynny union gan mlynedd wedi ei eni ym mis Mehefin 1921.




Cyfraniad Cyril Williams

Fe'i ganwyd yn fab i löwr ym Mhont-iets, yr ieuengaf o naw o blant. Mynychodd gapel Elim, Eglwys Bentecostaidd, am gyfnod yn ystod ei blentyndod cyn i'r teulu ddychwelyd i Nasareth, Capel yr Annibynwyr, fel y gallent addoli yn y Gymraeg. Dechreuodd bregethu pan yn 15 mlwydd oed, ac wedi iddo raddio a chymhwyso fel gweinidog fe'i ordeiniwyd yn y Tabor, Pontycymer cyn derbyn galwad i eglwys Radnor Walk yn Chelsea ac oddi yno i gapel y Priordy, Caerfyrddin. Wedi pedair blynedd ar ddeg fel gweinidog bugeiliol, fe'i denwyd i'r byd academiaidd lle treuliodd weddill ei yrfa gan wneud cyfraniad mawr i addysg grefyddol yng Nghymru a thu hwnt.

Er yn Gristion o argyhoeddiad dwfn iawn, nid oedd yn barod i dderbyn bod popeth a ymddangosai yn y Beibl yn llythrennol wir – safbwynt oedd yn ddadleuol iawn ymhlith llawer iawn o weinidogion a diwinyddion. Maes arall nad oedd yn boblogaidd gan rai oedd ei sêl ddiysgog o blaid gwerth cyflwyno credoau crefyddau eraill, yn arbennig crefyddau'r dwyrain, i'w fyfyrwyr ac i gynulleidfa ehangach. Dangosodd fod llawer o'r gwerthoedd canolog yn gyffredin i grefyddau'r byd, ond nid oedd hyn yn ei arwain i feddwl bod modd eu huno. Wedi iddo gael ei ddyrchafu'n Athro Astudiaethau Crefyddol a Deon Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, tyfodd yr Ysgol i fod yn ganolfan o bwys rhyngwladol o ran addysgu ac ymchwil ym maes crefyddau cymharol, gan ddenu myfyrwyr ac ysgolheigion o bob rhan o'r byd.

Roedd yn awdur toreithiog yn y ddwy iaith. Ymhlith ei gyfraniadau Cymraeg roedd ei gyfrol *Crefyddau'r Dwyrain* (Caerdydd, 1969) ac *Y Fendigaid Gân* (Caerdydd, 1991) sef cyfieithiad Cymraeg o *Bhagarad Gita*, tesun cysegredig Hindŵaidd. Yn ddiddorol iawn, wrth gofio i'w deulu gefnu ar yr eglwys Bentecostaidd ym Mhont-iets, astudiaeth o Dafodau Tân oedd testun ei ddoethuriaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddarach dan y teitl *Tongues of the Spirit* (Caerdydd, 1981).



Dyma ddiwinydd o statws rhyngwladol a gyfrannodd yn helaeth i addysg grefyddol yng Nghymru; mae'n llawn haeddu cael ei gynnwys yn y *Bywgraffiadur*, a hynny ar achlysur dathlu can mlwyddiant ei eni.

Cylchlythyr wythnosol yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddiontrwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.